# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (248)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 1 Mawrth 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Tynnwyd cwestiwn 10 ac 11 yn ôl.

………………………

### 14.26
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.41
### Eitem 3: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Cymdeithasol

………………………

### 15.27
### Eitem 4: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Addysg

**NNDM4660 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud ag Adran 409 o Ddeddf Addysg 1996, Taliadau a Ganiateir, y Panel Apêl Annibynnol, Ysgolion Preswyl a Cholegau a'r Asiantaeth Dysgu ar gyfer Pobl Ifanc a geir yn y Mesur Seneddol ynghylch Addysg, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2011, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

### 15.27
### Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Atodol

**NDM4661 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 27.21, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 8 Chwefror 2011.

*Troednodyn:*

*Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 27, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:*

*1. Y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;*

*2. Yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb floc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;*

*3. Cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb floc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;*

*4. Cysoniad rhwng amcangyfrif y symiau sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a*

*5. Cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).*

*Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………….

**15.50**
**Eitem 6: Dadl ar raglen TG y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

**NDM4670 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod bod systemau cyfrifiadurol modern yn hanfodol i roi gofal diogel ac effeithlon i gleifion, yn cydnabod cynnydd sylweddol hyd yn hyn ar Raglen TGCh GIG Cymru ac yn cefnogi buddsoddiad mewn systemau TGCh fel blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

## Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod datblygiad strategol systemau TGCh yn cael ei roi yn y fantol gan doriadau termau real Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gyllideb iechyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 4 | 30 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu'r gair 'sylweddol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 31 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Rhaglen TGCh newydd GIG Cymru yn caniatáu cyfathrebu a rhannu cofnodion rhwng practisiau meddygon teulu ac adrannau ysbytai er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn ddiogel, yn effeithlon ac yn amserol ar unrhyw bwynt yn system y GIG.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 31 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Rhaglen TGCh newydd GIG Cymru yn hollol ddiogel er mwyn sicrhau na chaiff dim data ei golli ac na chaiff diogelwch data ei danseilio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 1 | 30 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4670 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod bod systemau cyfrifiadurol modern yn hanfodol i roi gofal diogel ac effeithlon i gleifion, yn cydnabod cynnydd sylweddol hyd yn hyn ar Raglen TGCh GIG Cymru ac yn cefnogi buddsoddiad mewn systemau TGCh fel blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 14 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

……………………….

**16.31**
**Eitem 7: Dadl ar Ddiwygio’r PAC**

**NDM4669 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi'r ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar ddyfodol y PAC gan:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) yr ymateb ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
(c) Llywodraeth y DU

2. Yn credu y byddai toriad sylweddol iawn i'r Gyllideb PAC yn ystod y Fframwaith Ariannol nesaf yn niweidiol iawn i'r diwydiant ffermio ac economi ehangach Cymru, ac yn nodi bod sicrhau'r cytundeb gorau i Gymru o ddiwygio'r PAC yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

*E-bostiwyd copïau o ymateb Llywodraeth Cymru ac ymateb ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i Aelodau ar 22 Chwefror 2011*.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Mewnosod fel pwynt 2 newydd:

Yn credu y daw'r canlyniad gorau o'r trafodaethau PAC os bydd y Deyrnas Unedig yn cynrychioli safbwynt unedig yn y trafodaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 6 | 30 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2 'ac y dylai aros yn flaenoriaeth ar gyfer llywodraethau'r Cynulliad yn y dyfodol.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 1 | 29 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd enfawr diogelwch bwyd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn i sicrhau bod diogelwch bwyd yn aros wrth galon y PAC.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 1 | 30 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4669 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi'r ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar ddyfodol y PAC gan:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) yr ymateb ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
(c) Llywodraeth y DU

2. Yn credu y byddai toriad sylweddol iawn i'r Gyllideb PAC yn ystod y Fframwaith Ariannol nesaf yn niweidiol iawn i'r diwydiant ffermio ac economi ehangach Cymru, ac yn nodi bod sicrhau'r cytundeb gorau i Gymru o ddiwygio'r PAC yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

*E-bostiwyd copïau o ymateb Llywodraeth Cymru ac ymateb ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i Aelodau ar 22 Chwefror 2011*.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 8 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**17.09**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.13.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 2 Mawrth 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**